Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales




Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth

## Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF):
## Echel Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi

Fersiwn:3.0   Medi 2023

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys


Geirfa ... 1
Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi ... 8
Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol ... 9
Amcan Penodol 1.1 ... 10
Amcan Penodol 1.2 ... 12
Diffiniadau Dangosyddion ... 14
Nifer y mentrau sy’n cael grantiau ... 15
Nifer y mentrau sy’n cael cymorth nad yw’n ariannol ... 16
Nifer y mentrau newydd a gynorthwywyd ... 17
Nifer y partneriaid sy’n cydweithio mewn prosiect ymchwil ... 18
Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil sydd wedi’u gwella ... 20
Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir ... 21
Nifer yr ymchwilwyr sy’n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell ... 23
Faint o gyllid ymchwil sydd wedi’i sicrhau ... 25
Buddsoddiad preifat sy’n gyfatebol i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesi neu Ymchwil a Datblygu ... 27
Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i’r farchnad ... 29
Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i’r cwmni ... 31
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir ... 33
Nifer y patentau a gofrestrwyd ar gyfer cynhyrchion ... 34
Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd ... 35
Atodiad A: Gofynion Data Mentrau ... 36

# Geirfa[1]

| | |
|---|---|
| tra | Ystyr 'arloesi proses' yw gweithredu dull cynhyrchu neu gyflenwi newydd neu ddull o'r fath sydd wedi'i wella'n sylweddol (yn cynnwys newidiadau sylweddol o ran technegau, cyfarpar neu feddalwedd), heb gynnwys mân newidiadau neu welliannau, cynnydd mewn cynhyrchiant neu wasanaeth trwy ychwanegu systemau gweithgynhyrchu neu logistaidd sy'n debyg iawn i'r rheini a ddefnyddir eisoes, rhoi'r gorau i ddefnyddio proses, amnewid neu ehangu cyfalaf syml, newidiadau sy'n deillio'n gyfan gwbl o newidiadau ym mhrisiau ffactorau, addasiadau, lleoleiddio, newidiadau rheolaidd, tymhorol a chylchol eraill a masnachu cynhyrchion newydd neu gynhyrchion sydd wedi'u gwella'n sylweddol. |
| Arloesi Sefydliadol | Y weithred o roi dull sefydliadol newydd ar waith i gyflawni arferion busnes, trefniadaeth gweithle neu gysylltiadau allanol, heb gynnwys newidiadau sy'n seiliedig ar ddulliau sefydliadol sydd eisoes yn cael eu defnyddio, newidiadau i'r strategaeth reoli, uno a chaffael, rhoi'r gorau i ddefnyddio proses, amnewid neu ehangu cyfalaf syml, newidiadau sy'n deillio'n gyfan gwbl o newidiadau ym mhrisiau ffactorau, addasiadau, lleoleiddio, newidiadau rheolaidd, tymhorol a chylchol eraill a masnachu cynhyrchion newydd neu gynhyrchion sydd wedi'u gwella'n sylweddol. |
| BBaCh | Gweler y diffiniad yn argymhelliad 2003/362/EC. Busnesau micro, bach a chanolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn Ewro, a/neu gyfanswm mantolen nad yw'n fwy na 43 miliwn Ewro. Gall BBaCh fod yn awtonomaidd, ar ffurf |

[1] Daw'r diffiniadau o EU 1303/2013 a C(2014)3282 ac *EC Concepts and Recommendations*, Mawrth 2014

| | |
|---|---|
| | partner neu'n fusnesau cysylltiedig. Gellir cael canllawiau ar ddiffiniad y categorïau hyn, ac ar gyfrifo nifer y gweithwyr a'r trosiant, ar: http://ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition/index_en.htm |
| Cydweithrediad/cydweithredu | Cydweithredu neu gydweithrediad rhwng o leiaf ddau barti annibynnol er mwyn cyfnewid gwybodaeth neu dechnoleg, neu er mwyn gwireddu amcan cyffredin yn seiliedig ar raniad llafur lle y mae'r ddau barti ar y cyd yn diffinio cwmpas y prosiect cydweithredol, yn cyfrannu at ei roi ar waith ac yn rhannu'r risgiau, yn ogystal â'r canlyniadau. Gall un parti neu nifer o bartïon ysgwyddo holl gostau'r prosiect, gan ryddhau'r partïon eraill o'r risg ariannol. Nid ystyrir ymchwil dan gontract na darparu gwasanaethau ymchwil yn fathau o gydweithredu. |
| Cyflogai | Cyflogai fel y'i diffinnir yn https://www.gov.uk/employment-status/employee<br>Rhywun sy'n gweithio dan gontract cyflogaeth yw cyflogai. |
| Cyfwerth ag amser llawn | Dylid cofnodi bod swyddi'n gyfwerth ag amser llawn (FTE), yn seiliedig ar wythnos 30 awr.<br>Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos, yna mae'n FTE 1 (wedi'i gapio ar 1). Os nad yw swydd yn un lawn amser, yna bydd angen i'r oriau a weithir bob wythnos gael eu rhannu gyda 30 er mwyn cael cyfran yr FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE. |
| Cymorth Ariannol | Diffinnir cymorth ariannol fel grant lle y rhoddir cymorth ariannol uniongyrchol nad oes angen ei ad-dalu, yn amodol ar gwblhau prosiect.<br>Diffinnir cymorth ariannol fel rhywbeth gwahanol i grantiau pan fo'r cymorth ariannol ar ffurf benthyciadau, cymhorthdal llog, gwarant credyd, menter |

| | |
|---|---|
| | cyfalaf neu offerynnau ariannol o fath arall. |
| Datblygiad/datblygu arbrofol | Cael, cyfuno, llunio a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gwyddonol, technolegol, busnes neu o fath arall, gyda'r nod o ddatblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well. Gall hyn hefyd gynnwys, er enghraifft, weithgareddau sy'n anelu at ddiffinio, cynllunio a dogfennu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd mewn modd cysyniadol.<br><br>Gall datblygiad arbrofol gynnwys creu prototeip, arddangos, treialu, profi a dilysu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well mewn amgylcheddau sy'n cynrychioli amodau gweithredu go iawn sydd â'r prif amcan o gyflwyno gwelliannau technegol pellach i gynhyrchion, prosesau neu wasanaethau nad ydynt wedi'u pennu'n sylweddol. Gall hyn gynnwys datblygu peilot neu brototeip y gellir ei ddefnyddio'n fasnachol sydd, o angenrheidrwydd, yn cynrychioli'r cynnyrch masnachol terfynol ac sy'n rhy ddrud i'w gynhyrchu ar gyfer ei ddefnyddio, ond sydd at ddibenion arddangos a dilysu'n unig.<br><br>Nid yw datblygiad arbrofol yn cynnwys newidiadau arferol neu gyfnodol a wneir i gynhyrchion, llinellau cynhyrchu, prosesau gweithgynhyrchu a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes na gweithrediadau eraill sydd ar y gweill, hyd yn oed os gallai'r newidiadau hynny gynrychioli gwelliannau. |
| Gwasanaethau Cymorth Arloesi | Y ddarpariaeth o swyddfeydd, banciau data, llyfrgelloedd, ymchwil i'r farchnad, labordai, labelu, profi ac ardystio ansawdd at ddibenion datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau mwy effeithiol. |
| Gwasanaethau Cynghori Arloesi | Ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant yn y meysydd trosglwyddo gwybodaeth, |

| | |
|---|---|
| | caffael, diogelu a defnyddio asedau anniriaethol, a'r defnydd o'r safonau a'r rheoliadau y maent wedi'u seilio arnynt. |
| Gweithrediad | Bydd gan Weithrediad gynllun busnes y cytunwyd arno gyda WEFO a bydd yn cyfrannu at un Amcan Penodol.<br><br>Dyma ddiffiniad y CE isod:<br><br>prosiect, contract, gweithred neu grŵp o brosiectau a ddewisir gan awdurdodau rheoli'r rhaglenni dan sylw, neu rai y maent yn gyfrifol amdanynt, sy'n cyfrannu at amcanion blaenoriaeth neu flaenoriaethau; yng nghyd-destun offerynnau ariannol, gweithred yw'r cyfraniadau ariannol gan raglen i offerynnau ariannol a'r cymorth ariannol dilynol a ddarperir gan yr offerynnau ariannol hynny. |
| Menter | Sefydliad sy'n cynhyrchu cynhyrchion neu wasanaethau i ddiwallu anghenion y farchnad er mwyn gwneud elw. Gall ffurf gyfreithiol menter amrywio (pobl hunangyflogedig, partneriaethau ac ati). (CE, 2014). |
| Menter Gymdeithasol | Menter sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, lle y caiff unrhyw arian dros ben ei ailfuddsoddi yn y fenter neu'r gymuned at y diben hwnnw gan mwyaf, yn hytrach na chael ei lywio gan yr angen i wneud cymaint â phosibl o elw i randdeiliaid a pherchnogion. |
| Prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi | Yn unol â'r fframwaith ar gyfer cymorth gwladwriaethol mewn perthynas ag Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (2014/C 198/01), diffinnir prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi fel gweithrediadau sy'n cwmpasu un neu fwy o gategorïau ymchwil a datblygu cymhwysol neu sylfaenol sydd â'r nod o gyflawni tasg anwahanadwy o natur economaidd, wyddonol neu dechnegol manwl ac sydd â nodau clir a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Gall |

| | |
|---|---|
| | prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi gynnwys nifer o becynnau gwaith, gweithgareddau neu wasanaethau, ac mae'n cynnwys amcanion clir, gweithgareddau sydd angen eu gwneud i gyflawni'r amcanion hynny (yn cynnwys eu cost ddisgwyliedig), a thargedau cadarn i nodi canlyniadau'r gweithgareddau hynny a'u cymharu â'r amcanion perthnasol. Pan na ellir gwahanu'n glir ddau neu fwy o brosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, yn enwedig pan na fydd ganddynt debygolrwydd annibynnol o lwyddiant technolegol, fe'u hystyrir fel un prosiect. |
| Rhywedd | Mae'r term "Rhyw" yn cyfeirio at y nodweddion biolegol a ffisiolegol sy'n diffinio dynion a menywod, tra y mae "rhywedd" yn cyfeirio at gynrychiolaeth gymdeithasol nodweddion gwrywaidd a benywaidd. At ddibenion monitro, argymhellir y canlynol:<br>- mewn achosion lle y cesglir gwybodaeth yn uniongyrchol gan gyfranogwyr, dylai hunaniaeth rhywedd y cyfranogwyr gael ei chofnodi (h.y. y rhyw/rhywedd y mae'r cyfranogwr yn dymuno cael ei gysylltu ag ef);<br>- mewn achosion lle y cymerir gwybodaeth oddi ar gofrestrau, gellir defnyddio'r cofnodion sy'n bodoli eisoes heb wneud ymholiadau pellach. |
| Sefydliad Ymchwil | Sefydliad lle y gwelir mai Ymchwil a Datblygu yw'r prif weithgaredd. Gall gynnwys sefydliadau'r sector preifat. Mae'n cynnwys Byrddau Iechyd, Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach. |
| Seilwaith Ymchwil | Mae seilwaith ymchwil yn derm eang a ddefnyddir ar gyfer grŵp hynod amryfal o asedau diriaethol neu anniriaethol, ond mae wedi'i ddiffinio gan yr UE mewn cyd-destunau eraill fel cyfleusterau, adnoddau a gwasanaethau cysylltiedig a ddefnyddir gan y gymuned wyddonol i gynnal gwaith ymchwil lefel uchaf yn eu meysydd |

| | |
|---|---|
| | priodol. Mae’r term yn cwmpasu cyfarpar neu setiau o offer gwyddonol o bwys; adnoddau gwybodaeth fel casgliadau, archifau neu strwythurau ar gyfer gwybodaeth wyddonol; gwybodaeth alluogi a seilweithiau cyfathrebu seiliedig ar dechnoleg fel gridiau, cyfrifiadura, meddalwedd a chyfathrebu, neu unrhyw endid o natur unigryw sy’n hanfodol i gyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil. Gall seilweithiau o’r fath fod wedi’u lleoli ar un safle neu fod ar wasgar ac yn rhwydwaith trefnedig o adnoddau. |
| Trosglwyddo Gwybodaeth | Proses sydd â’r nod o gael, casglu a rhannu gwybodaeth benodol a dealledig, yn cynnwys sgiliau a chymhwysedd mewn gweithgareddau economaidd ac aneconomaidd fel gwaith ymchwil cydweithredol, ymgynghoriaeth, trwyddedu, creu deilliedig, cyhoeddi a symudedd ymchwilwyr a phersonél eraill sy’n ymwneud â’r gweithgareddau hynny. Ar wahân i wybodaeth wyddonol a thechnolegol, mae’n cynnwys mathau eraill o wybodaeth fel gwybodaeth am ddefnyddio a chynnwys safonau a rheoliadau ac am amgylcheddau gweithredu go iawn a dulliau arloesi sefydliadol, yn ogystal â rheoli gwybodaeth sy’n ymwneud â phennu, cael, diogelu, amddiffyn a defnyddio asedau anniriaethol. |
| Ymchwil Ddiwydiannol | Ymchwil neu ymchwiliad beirniadol arfaethedig sydd â’r nod o gael gwybodaeth a sgiliau ar gyfer datblygu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd, neu ar gyfer cyflwyno gwelliannau sylweddol i gynhyrchion, prosesau neu wasanaethau presennol. Mae’n cynnwys creu cydrannau o systemau cymhleth, a gallai hyn gynnwys adeiladu prototeipiau mewn labordy neu mewn amgylchedd â rhyngwynebau ffug i systemau presennol yn ogystal â llinellau arbrofol, pan fydd eu hangen ar gyfer ymchwil diwydiannol ac yn enwedig ar gyfer dilysu technoleg enerig. |

| | |
|---|---|
| Ymchwil Gymhwysol | Mae ‘Ymchwil Gymhwysol’ yn golygu ymchwil ddiwydiannol, datblygiad arbrofol, neu unrhyw gyfuniad o’r ddau. |
| Ymchwil Sylfaenol | Gwaith arbrofol neu ddamcaniaethol a wneir yn bennaf er mwyn cael gwybodaeth newydd am sylfeini sylfaenol ffenomenau a ffeithiau canfyddadwy, heb unrhyw ddefnydd masnachol uniongyrchol mewn golwg. |

# Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi

| | | |
|---|---|---|
| Amcan Thematig 1 | Cryfhau ymchwil, datblygiadau technolegol ac arloesi. | |
| Blaenoriaeth Buddsoddi 1(a) | Gwella'r seilwaith Ymchwil ac Arloesi a galluoedd i ddatblygu rhagoriaeth mewn Ymchwil ac Arloesi a hyrwyddo canolfannau cymhwysedd, yn arbennig rhai o ddiddordeb Ewropeaidd. | AP 1.1 |
| Blaenoriaeth Buddsoddi 1(b) | Hyrwyddo buddsoddiadau gan fusnesau mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng mentrau, canolfannau Ymchwil a Datblygu ac addysg uwch, yn arbennig o ran datblygu cynhyrchion a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaethau cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesi agored trwy arbenigo craff ac ategu ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau cynhyrchu peilot, camau i ddilysu cynhyrchion yn gynnar, galluoedd gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol a lledaenu technolegau defnydd cyffredinol. | AP 1.2 |

## Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol

Bwriad y dangosydd canlyniadau yw cynrychioli'r newid a ragwelir o ganlyniad uniongyrchol i ymyriad(au) a gysylltir â phob amcan penodol. Caiff y sail resymegol dros ddewis y dangosyddion canlyniadau a thargedau'r rhaglen ei nodi yn y Rhaglenni Gweithredol priodol. Mae'r Rhaglenni Gweithredol ar gael ar http://www.gov.wales/eu-funding

Mae'r rhain yn gosod nodau cyffredinol y rhaglenni y bydd y gweithrediadau'n cael eu cynnal oddi mewn iddynt, ac mewn sawl achos ceir enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau a ragwelir dan bob amcan penodol.

Dylai'r gweithrediadau, yn unol â'u tablau rhesymeg gweithredu, ganolbwyntio ar eu cyfraniad at y dangosydd canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol.

Dylai'r dangosyddion cynnyrch a ddewisir, fel y'u diffinnir yn y canllawiau hyn, ddeillio o'r rhesymeg ymyriad ar gyfer pob gweithrediad a dylent gyd-fynd â'r dangosyddion canlyniadau priodol, yr amcanion penodol a'r blaenoriaethau buddsoddi.

Bydd angen cyflwyno tystiolaeth i ddangos sut y mae'r gweithgareddau a ariennir yn cysylltu'r nodau â'r amcanion a'r cynhyrchion. Pennir a chytunir ar y dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno yn y Cynllun Busnes.

**Data Monitro:**

Bydd angen cyflwyno data er mwyn ategu hawliadau. Mae Atodiad A yn pennu'r gofynion data ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan WEFO.

Dylai buddiolwyr hefyd gasglu data monitro ***ychwanegol*** fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y Gweithrediad.

Dylid lanlwytho'r data trwy gyfrwng WEFO Ar-lein fel rhan o'r broses hawlio. Mae templed ar gyfer darparu data i'w gael ar wefan WEFO.

Os yw ymholiad yn ymwneud yn uniongyrchol â Gweithrediad sydd wedi'i gymeradwyo, yna dylid cysylltu â'r Swyddog Datblygu Prosiectau yn y lle cyntaf.

Cysylltiadau defnyddiol eraill ar gyfer ymholiadau a chyngor:

RME.MAILBOX@gov.wales Ymholiadau'n ymwneud ag Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales Ymholiadau'n ymwneud â Themâu Trawsbynciol

WEFOverifications@gov.wales Ymholiadau'n ymwneud ag archwilio a thystiolaeth

**Tystiolaeth: egwyddorion cyffredinol**

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, oni nodir yn wahanol.

Dylai'r dystiolaeth fod ar gael pan gyflwynir yr hawliad.

Dylid nodi tystiolaeth yn ymwneud â chymhwystra, gweithgareddau a chynhyrchion yn y Cynllun Busnes, ac yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso y cytunwyd arno gyda WEFO.

Dylid cadw manylion am y gweithgareddau sydd i'w cynnal. Yn achos cymorth busnes, dylai'r rhain fod yn gyson â rheolau cymhwystra cenedlaethol Cymru a'r rhaglen weithredol, gan ymdrin ag angen busnes gwirioneddol a bennwyd trwy gyfrwng prawf diagnostig neu asesiad arall.

Os defnyddir ffurflenni hunanddatgan, dylid cytuno arnynt gyda WEFO a'u hatodi wrth y Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Os cyfyngir ar eich gweithrediad i weithio gyda BBaCh, bydd angen cyflwyno tystiolaeth o statws y BBaCh. Gall mentrau a gynorthwyir gan ERDF ddefnyddio'r ffurflen ddatgan enghreifftiol yng nghanllawiau'r CE ar BBaCh i bennu statws y BBaCh: http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/10109/attachments/1/translations/en/renditions/pdf. Fel arall, gellir defnyddio tystiolaeth sy'n deillio o gyfrifon y cwmni; cofnodion Tŷ'r Cwmnïau; cronfeydd data fel MINT; croesgyfeirio â gwybodaeth arall sydd gan Lywodraeth Cymru neu wybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus.

**Nid yw'r diffiniadau dangosyddion canlynol yn disodli unrhyw ofynion am gymorth gwladwriaethol a dylai buddiolwyr sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol yn cael eu cynnal ar fentrau a gefnogir i sicrhau nad ydynt mewn trafferthion ariannol. [2]Dylid cadw tystiolaeth o'r gwiriadau**

**Os gwneir unrhyw drefniadau'n ymwneud yn benodol â Gweithrediadau gyda WEFO mewn perthynas â thystiolaeth, yna dylid cofnodi hyn yn y cynllun monitro a gwerthuso.**

**Amcan Penodol 1.1**

[2] Mae 'cwmnïau mewn trafferthion' fel y'u diffinnir o dan reolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE yn anghymwys i gael cefnogaeth. Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52014XC0731(01)&from=EN adran 2.2. yn cyfeirio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil Cymru o ran denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat. | | | |
| | | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) | Targed Dwyrain Cymru (2023) |
| **Dangosydd canlyniad** | Incwm Ymchwil ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch.[3] | Cynnydd o 10-15% uwchlaw'r llinell sylfaen[4] | Cynnydd o 6% uwchlaw'r llinell sylfaen |
| Dangosydd cynnyrch | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiect ymchwil | 1,357 | 288 |
| | Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil sydd wedi'u gwella | 11 | 5 |
| | Faint o gyllid ymchwil sydd wedi'i sicrhau | £180m | £95m |
| | Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir | 470 | 290 |
| | Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell | 200 | 110 |

[3] Incwm ymchwil yn sgil cyllid cystadleuol a phreifat ar gyfer ymchwil 'gymhwysol'. https://www.hesa.ac.uk. Yn cynnwys 'preifat' a 'chyfatebol'.
[4] Llinellau sylfaen £82.4m (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) £92.8m (Dwyrain Cymru) (2011-12) (HESA)

**Amcan Penodol 1.2**

| Cynyddu'r achosion o droi prosesau ymchwil ac arloesi'n wasanaethau, yn brosesau ac yn gynhyrchion masnachol newydd a gwell, yn arbennig trwy drosglwyddo technoleg yn well o Sefydliadau Addysg Uwch. | | | |
|---|---|---|---|
| | | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Targed Dwyrain Cymru |
| **Dangosydd canlyniad** | Cyfran gyfartalog cyfanswm trosiant yn sgil arloesi cynhyrchion ac arloesi newyddbethau: newydd i'r farchnad, newydd i fusnesau a sylweddol well. | + 24-27%[5] | + 23-24%[5] |
| Dangosyddion cynnyrch | Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiect ymchwil | 2,300 | 550 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 350 | 320 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol | 1,676 | 550 |
| | Nifer y mentrau newydd a gynorthwywyd | 30 | 20 |
| | Buddsoddiad preifat sy'n gyfatebol i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesi neu Ymchwil a Datblygu | €42.8m | €26.2m |
| | Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 942 | 574 |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad | 490 | 300 |

[5] Llinell sylfaen 22.4% (Cymru Gyfan) (data 2010: Tabl 4) UK Innovation Survey (BIS)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni | 725 | 250 |
| | Nifer y patentau a gofrestrwyd ar gyfer cynhyrchion | 519 | 315 |
| | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | Amherthnasol | Amherthnasol |

## Diffiniadau Dangosyddion

## Nifer y mentrau sy'n cael grantiau

Nifer y *mentrau* sy'n cael cymorth ariannol uniongyrchol nad oes angen ei ad-dalu; yr unig amod yw bod yn rhaid cwblhau'r *prosiect* y rhoddwyd y grant o'i herwydd.

Dylai gwerth y grant fod yn £1000 o leiaf.

Ar gyfer menter a gaiff grant fwy nag unwaith mewn gweithrediad, dim ond unwaith y gellir ei chyfrif.

Ar gyfer menter y cofnodir ei bod wedi cael grantiau, gellir cofnodi hefyd ei bod wedi cael cymorth nad yw'n ariannol os cafodd gymorth perthnasol trwy gyfrwng gweithgareddau gwahanol.

**Uned:**

Mentrau

**Gofynion Data:**

Dylid cyflwyno data ynghylch yr holl fentrau a gynorthwyir pan gânt eu cynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr lawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Dylai'r gweithrediad gyflwyno llythyr neu ddogfen briodol i'r fenter yn nodi swm y grant; pwrpas y grant ac unrhyw amodau'n ymwneud â'r grant.

Dylid cyflwyno copi o'r BACS neu'r Gyfriflen Banc yn dangos bod yr arian wedi'i drosglwyddo i gyfrif derbynnydd y grant.

## Nifer y mentrau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol

Nifer y mentrau a gaiff gymorth ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cynnwys cymorth ariannol uniongyrchol anad-daladwy. Gallai'r gweithgareddau gynnwys arweiniad, ymgynghoriaeth, cymorth cynghori arloesi, gwasanaethau cymorth arloesi, trosglwyddo gwybodaeth. Dim ond unwaith y gellir cyfrif menter sy'n cael cymorth nad yw'n gymorth ariannol mewn gweithrediad.

Lleiafswm o 1 diwrnod (gweithgaredd 6 awr) a gyflwynir trwy brawf busnes diagnostig neu gyfwerth sy'n arwain at gynllun gweithredu NEU gymorth 2 ddiwrnod (12 awr) trwy gyfrwng gwasanaeth cynghori arloesi neu wasanaeth arloesi.
Ar gyfer menter y cofnodir ei bod wedi cael cymorth dan y dangosydd hwn, gellir cofnodi hefyd ei bod wedi cael grantiau, cydweithrediad neu gynhyrchion newydd os yw'r diffiniadau dangosyddion yn cael eu bodloni.

Nid yw'r diffiniad hwn yn disodli unrhyw ofynion ar gyfer cymorth gwladwriaethol. Rhaid i weithrediadau sicrhau bod ganddynt y gwasanaeth cymorth gwladwriaethol priodol mewn lle wrth hawlio'r dangosydd hwn.

**Uned:**

Mentrau

**Gofynion Data:**

Dylid cyflwyno data ynghylch yr holl fentrau a gynorthwyir pan gânt eu cynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr lawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Cofnod o'r amser a dreuliwyd gan staff y Gweithrediad yn cynorthwyo'r fenter, wedi'i gynnal ar gyfer pob menter; dylai'r cofnod hwn fanylu ynghylch pa gymorth a roddwyd a nifer yr oriau a dreuliwyd yn rhoi'r cymorth. Dylai'r cofnod gael ei arwyddo gan y staff a roddodd y cymorth a naill ai gynrychiolydd y fenter neu rywun mewn swydd uwch o fewn y gweithrediad.

Os cynhelir prawf diagnostig, yna dylid cadw copi o'r prawf a'r cynllun gweithredu.

## Nifer y mentrau newydd a gynorthwywyd

Nifer y mentrau a grëwyd o ganlyniad i gael cymorth yn ystod y rhaglen ERDF bresennol. Os bydd amryfal weithrediadau'n cynorthwyo menter newydd, dim ond unwaith y dylid ei chyfrif. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb y Gweithrediadau perthnasol yw cytuno pa un y dylid adrodd arni ar sail y dangosydd.

Ni ddylai'r mentrau a grëwyd fod wedi masnachu cyn cael cymorth ERDF.

Ni fydd menter yn cael ei hystyried fel un newydd os mai ei ffurf gyfreithiol yn unig a fydd yn newid.

Dylid ystyried goroesiad mentrau a grëwyd wrth werthuso'r Gweithrediad.

**Uned:**

Mentrau

**Gofynion Data:**

Dylid cyflwyno data ynghylch yr holl fentrau a gynorthwyir pan gânt eu cynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr lawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Erthyglau Cymdeithasu; Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, Datganiad Cenhadaeth, Cynllun Busnes.

Tystiolaeth o ddarparu'r nwyddau/cyflwyno'r gwasanaethau am y tro cyntaf – fel arfer, y dyddiad y cyflwynir yr anfoneb gyntaf.

Y dyddiad y cofrestrodd y busnes ar gyfer TAW, os yw'n berthnasol.

Islaw'r trothwy TAW – y dyddiad y cofrestrodd yr unigolion dan sylw am gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 (rhaid i hyn ddigwydd o fewn 13 wythnos i ddechrau masnachu).

Mewn achosion pan nad yw'r uchod o angenrheidrwydd yn berthnasol, gellir pennu cychwyn y busnes trwy ddatblygu'r fantolen: buddsoddiad mewn asedau at ddibenion y busnes; neu agor cyfrif banc busnes.

## Nifer y partneriaid sy’n cydweithio mewn prosiect ymchwil

Cyfanswm y mentrau a’r Sefydliadau Ymchwil sy’n cydweithio ar brosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a gynorthwyir trwy ERDF.

Dan AP1.1, gallai prosiectau gynnwys datblygu ceisiadau am gyllid mewn prosiectau dilynol a gallai hyn fod rhwng 2 neu fwy o fentrau a/neu sefydliadau ymchwil.

Dylai AP1.2 ganolbwyntio ar drosglwyddo syniadau da, canlyniadau ymchwil a sgiliau rhwng y sylfaen wybodaeth a’r busnes fel y gellir datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac arloesol, ac mae’n cynnwys:

• Cydweithredu ar waith ymchwil a lledaenu ymchwil yn rhad ac am ddim.

• Datblygiad hirdymor ac ar y cyd mewn perthynas â gwasanaethau neu fusnes newydd.

• Ffurfio mentrau ar y cyd a chwmnïau deillio. Dylai o leiaf un sefydliad ymchwil a menter fod yn rhan o hyn.

Dylid cofnodi pob sefydliad ymchwil a phob menter ar wahân yn erbyn y dangosydd hwn. Os yw sefydliad wedi’i leoli y tu allan i’r rhanbarth, yna dylid nodi’n glir beth yw’r budd i’r rhanbarth hwnnw.

Bwriedir i gydweithrediadau fod yn hirdymor a pharhaol, ac maent yn wahanol i grantiau a chymorth nad yw’n ariannol ar gyfer mentrau.

Gellir cyfrif cydweithrediad ar gyfer paratoi cais am gyllid ymchwil, ond os bydd yn arwain at gydweithredu contractiol dylid ei gyfrif fel un prosiect.

Gellir hawlio’r dangosydd hwn ar ôl dyddiad cychwyn y prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfnod ôl-weithredu y cytunwyd arno ar gyfer y Gweithrediad.

Os bydd cydweithrediad ar ymyriad arbennig yn cynnwys gwaith gyda sefydliadau arweiniol ac isgontractiol, gellir cyfrif pob sefydliad o fewn y prosiect ar wahân.

Gellir cofnodi Mentrau fwy nag unwaith dan y dangosydd hwn, cyn belled â’u bod yn cydweithredu dros oes pob prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi unigol a chyn belled ag y gall y Gweithrediad ddangos bod gan bob prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi nodau ac amcanion gwahanol i’w gilydd.

Er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith drosodd, dim ond un Gweithrediad a ddylai hawlio cydweithrediadau sy’n cynnwys amryfal Weithrediadau a ariennir gan ERDF.

**Uned:**

Mentrau:

**Gofynion Data:**

Ar gyfer pob prosiect Ymchwil, Data ac Arloesi, dylid adrodd ar y canlynol:

Sefydliad ymchwil: Enw / cyfeiriad a dyfais adnabod e.e. ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch dylid defnyddio'r cod PIC.

Enw / cyfeiriad / dyfais adnabod (fel rhif TAW / cyfeiriad / statws BBaCh) y fenter/mentrau sy'n cydweithredu

Dylid nodi enw'r prosiect dan y maes 'Y Math o Gymorth a Gafwyd'.

Dylid cofnodi'r data uchod yn lle data'r fenter.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Dylai'r dystiolaeth allu pennu nodau penodol y cydweithrediad, y gweithgareddau a fydd yn cael eu rhoi ar waith a sut y disgwylir iddynt gyfrannu at y cynhyrchion a ragwelir.

Dylai manylion yr arbenigedd penodol a'r cyfraniad a gynigir mewn perthynas â gweithgareddau'r cydweithrediad fod ar gael i'r holl sefydliadau a gynhwysir yn yr hawliad dangosol.

Dylid ategu hyn gan gytundeb rhwng partneriaid y cydweithrediad, sy'n nodi cyfraniad y fenter a'r sefydliad ymchwil e.e. cytundeb cydweithredu.

Os yw cydweithrediad yn llai ffurfiol, er enghraifft paratoi cais am gyllid, yna bydd copi o'r cais neu'r rhannau perthnasol ynghyd â chadarnhad ysgrifenedig gan uwch aelod o staff fod yr holl bartneriaid wedi cymryd rhan yn y Gweithrediad ERDF yn ddigon.

## Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil sydd wedi'u gwella

Nifer y cyfleusterau seilwaith *ymchwil* sydd wedi'u gwella'n uniongyrchol oherwydd cymorth ERDF.

Mae seilwaith ymchwil yn derm eang a ddefnyddir ar gyfer grŵp hynod amryfal o asedau diriaethol neu anniriaethol, ond mae wedi'i ddiffinio gan yr UE mewn cyd-destunau eraill fel cyfleusterau, adnoddau a gwasanaethau cysylltiedig a ddefnyddir gan y gymuned wyddonol i gynnal gwaith ymchwil lefel uchaf yn eu meysydd priodol. Mae'r term yn cwmpasu cyfarpar neu setiau o offer gwyddonol o bwys; adnoddau gwybodaeth fel casgliadau, archifau neu strwythurau ar gyfer gwybodaeth wyddonol; gwybodaeth alluogi a seilweithiau cyfathrebu seiliedig ar dechnoleg fel gridiau, cyfrifiadura, meddalwedd a chyfathrebu, neu unrhyw endid o natur unigryw sy'n hanfodol i gyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil. Gall seilweithiau o'r fath fod wedi'u lleoli ar un safle neu fod ar wasgar ac yn rhwydwaith trefnedig o adnoddau.

**Uned:**

Cyfleusterau

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Ar gyfer seilwaith ffisegol:

Dylid cofnodi'r cynnyrch hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.

Manylebau adeiladu (safonau adeiladu rhagorol BREEAM); cynlluniau llawr; caniatâd cynllunio; astudiaeth o'r effaith amgylcheddol (pan fydd seilwaith yn adeilad newydd neu well, neu pan fydd yn cynnwys adeilad newydd neu well), dogfennau caffael, adroddiad tendr, contract gwaith wedi'i arwyddo, tystysgrif cwblhau.

Seilwaith nad yw'n ffisegol

Disgrifiad manwl o'r seilwaith, y cytunwyd arno gyda WEFO ac a arwyddwyd gan aelod uwch o staff yn y Gweithrediad a gynorthwyir gan ERDF.

## Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir

Ffordd o fesur y cynnydd mewn gallu ymchwil, a fesurir gan nifer gros y swyddi newydd (nad oeddynt yn bodoli cyn ymyriad y gronfa strwythurol) a fydd yn ymhél yn uniongyrchol â gweithgareddau Ymchwil, Datblygu a/neu Arloesi, mewn ffurfiau cyfwerth ag amser llawn (FTE).

Mae'r dangosydd yn canolbwyntio ar bersonél cyflogedig; gall yr endid a gynorthwyir fod yn newydd neu gall fodoli eisoes. Mae 'cyflogedig' yn golygu bod contract cyflogaeth i'w gael.

Rhaid i'r **swydd** fod wedi deillio o weithredu neu gwblhau'r prosiect ymchwil. Dylai'r swydd fod wedi'i llenwi (ni ellir cyfrif swyddi gwag) a dylai gynyddu cyfanswm y swyddi ymchwil yn yr endid a gynorthwyir gan ERDF. Ni ellir cyfrif staff cymorth mewn swyddi nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Gellir cynnwys swyddi cyfnod penodol, cyn belled ag y byddant yn para am oes y prosiect a gaiff ei gynorthwyo.

Dylid adio swyddi ymchwil a grëwyd ar gyfer gwahanol brosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi mewn Gweithrediad (cyn belled â bod yr holl brosiectau wedi cael cymorth). Nid ystyrir hyn fel eu cyfrif ddwywaith drosodd, cyn belled ag y bo pob rôl yn ymwneud yn benodol â'r prosiect Ymchwil, Datblygu ac Arloesi hwnnw, ond yn cyd-fynd â'r diffiniad Cyfwerth ag Amser Llawn.

**Uned:**

**Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)**

Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr **neu fwy** yr wythnos, yna mae'n 1 FTE **(wedi'i gapio ar 1).** Os nad yw swydd yn un lawn amser, yna bydd angen i'r oriau a weithir bob wythnos gael eu rhannu gyda 30 er mwyn cael cyfran yr FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE.

Ni chaiff contractau 'dim oriau' eu hystyried.

**Gofynion data:**

Rhaid cofnodi rhywedd deiliad y swydd. Mae a wnelo'r rhywedd â deiliad cyntaf y swydd.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Gellir dangos cynnydd yn nifer yr ymchwilwyr newydd trwy ddefnyddio ffurflenni hunanddatgan. Dylid cytuno ar fformat y ffurflen hunanddatgan gyda WEFO a dylid ei hatodi wrth y Cynllun Monitro a Gwerthuso. Ond dylid cynnwys:

- manylion am y swyddi sydd wedi'u creu

- natur y contract (cyfnod penodol/penagored) a'r dyddiadau cychwyn a gorffen

- bod y cynnydd wedi deillio o'r ymyriad ERDF

- band cyflog a rhywedd deiliad cyntaf y swydd. Dylai cyfarwyddwr neu uwch-reolwr o fewn y Gweithrediad arwyddo'r datganiad, a dylent nodi beth yw eu rôl.

## Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell

Ffordd o fesur gweithgareddau ymchwil mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil sydd wedi'u gwella o ganlyniad i gymorth ERDF. Gall y cyfleusterau fod yn rhai preifat neu'n rhai cyhoeddus, yn rhai ffisegol neu'n rhai heb fod yn ffisegol. Swyddi presennol mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil sy'n

(1) mynd i'r afael yn uniongyrchol â gweithgareddau ymchwil, datblygu a/neu arloesi[6] ac

(2) y mae'r cymorth a roddwyd gan y Gweithrediad neu'r prosiect Ymchwil a Datblygu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Rhaid i'r swyddi fod wedi'u llenwi (ni fydd swyddi gwag yn cyfrif) ac yn rhai FTE yn seiliedig ar 30 awr yr wythnos. Ni chaiff staff cymorth ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (h.y. swyddi nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi) eu cyfrif.

Os bydd mwy o ymchwilwyr yn cael eu cyflogi yn y cyfleuster o ganlyniad i'r Gweithrediad neu'r prosiectau Ymchwil a Datblygu a gynorthwyir gan y cyfleusterau, bydd nifer y swyddi ymchwil yn cynyddu gan hynny. Dylid hawlio'r swyddi newydd dan "Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir" hefyd.

Rhaid i'r prosiect Ymchwil a Datblygu wella'r cyfleusterau neu ansawdd y cyfarpar, h.y. ni chaiff gwaith cynnal a chadw neu gyfarpar newydd nad ydynt yn arwain at wella ansawdd eu hystyried.

Rhaid cael contract cyflogaeth. Ni chaiff contractau 'dim oriau' eu hystyried.

**Uned:**

FTE (oriau dan gontract yn seiliedig ar wythnos 30 awr)

Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr **neu fwy** yr wythnos, yna mae'n 1 FTE **(wedi'i gapio ar 1).** Os nad yw swydd yn un lawn amser, yna bydd angen i'r oriau a weithir bob wythnos gael eu rhannu gyda 30 er mwyn cael cyfran yr FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE.

**Gofynion Data:**

[6] Gweler y diffiniad yn yr Eirfa

Rhaid cofnodi rhywedd yr ymchwilwyr. Mae a wnelo'r rhywedd â deiliad cyntaf y swydd.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Gellir dangos hyn trwy ddefnyddio ffurflenni hunanddatgan. Dylid cytuno ar fformat y ffurflen hunanddatgan gyda WEFO a dylid ei hatodi wrth y Cynllun Monitro a Gwerthuso. Ond dylid cynnwys manylion y swyddi, a pha rai sy'n bodoli o fewn y cyfleuster ymchwil gwell o ganlyniad i'r ymyriad ERDF. Dylid cynnwys band cyflog a rhywedd deiliad cyntaf y swydd. Dylai cyfarwyddwr neu uwch-reolwr o fewn y Gweithrediad arwyddo'r datganiad, a dylent nodi beth yw eu rôl.

## Faint o gyllid ymchwil sydd wedi'i sicrhau

Faint o gyllid ymchwil sydd wedi'i sicrhau gan Sefydliad Ymchwil a gynorthwyir gan Weithrediad ERDF. Bydd hyn yn gyson â gwerth y dyfarndaliad a roddwyd i'r Sefydliad Ymchwil fel y'i nodir mewn llythyr dyfarnu neu ohebiaeth gan y cyllidwr. Gellir hawlio Cost Economaidd Lawn (FEC) y dyfarniad ymchwil.

Dim ond gwerth y dyfarndaliad y gellir ei briodoli i'w gweithgareddau sefydliadol hwy eu hunain a swm y dyfarndaliad y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd perthnasol a gyllidir gan ERDF y dylai Sefydliadau Ymchwil ei gofnodi.

**Uned:**

£ GBP

Pan gaiff dyfarndaliadau eu gwneud mewn €, dylid defnyddio'r gyfradd gyfnewid ECB € / £ sydd mewn grym ar ddyddiad y dyfarndaliad.

**Gofynion Data:**

Ffynhonnell y Cyllid:

Cynghorau Ymchwil BIS, y Gymdeithas Frenhinol, yr Academi Brydeinig a Chymdeithas Frenhinol Caeredin

Elusennau sydd wedi'u lleoli yn y DU

Elusennau sydd wedi'u lleoli yn y DU (proses gystadleuol agored)

Elusennau sydd wedi'u lleoli yn y DU (arall)

Cyrff llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd ac ysbytai yn y DU

Diwydiannau, masnach a chorfforaethau cyhoeddus yn y DU, yn cynnwys o ganlyniad i'r canlynol:

*Cyrff llywodraeth yr UE (dyfarndaliadau'n unig)*

*Diwydiannau, masnach a chorfforaethau cyhoeddus yr EU (dyfarndaliadau'n unig)*

*Mae elfennau eraill yr UE yn cynnwys grantiau ymchwil ac incwm contractau (dyfarndaliadau'n unig)*

*Elusennau nad ydynt wedi’u lleoli yn yr UE (proses gystadleuol agored)*

*Diwydiannau heb fod yn yr UE*

*Elfennau eraill nad ydynt yn yr UE*

Ffynonellau eraill

**Tystiolaeth a Awgrymir**

**Cais** am gyllid ymchwil sy’n gysylltiedig â’r dyfarndaliad, lle y disgrifir y cysylltiad â’r gweithgareddau perthnasol a gynorthwyir gan ERDF.

Pan na fydd y cais ymchwil yn nodi cysylltiad â gweithgareddau a gynorthwyir gan ERDF, dylid cyflwyno datganiad ategol i ddangos sut y mae’r dyfarndaliad yn ymwneud â’r Gweithrediad ERDF perthnasol. Dylai’r Prif Ymchwilydd, neu rywun a chanddo arbenigedd academaidd perthnasol yn y maes pwnc, gyflwyno hwn.

Cadarnhad / Llythyr Dyfarnu gan y cyllidwr yn cadarnhau gwerth y dyfarndaliad a dyddiad y dyfarndaliad.

Lle mae Cost Economaidd Lawn (FEC) dyfarniad ymchwil yn cael ei hawlio, rhaid darparu tystiolaeth o'r dyfarniad gan y cyllidwr perthnasol a’r Sefydliad Ymchwil. Os na ellir darparu trywydd archwilio llawn o’r Sefydliad Ymchwil hyd at y Gweithrediad, rhaid darparu datganiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan uwch reolwr yn y Sefydliad Ymchwil, sy’n annibynnol o’r gweithrediad, ac wedi'i gytuno gyda WEFO.

Gellir cyfrif cyllid ymchwil a drosglwyddir i Sefydliad Ymchwil tuag at y dangosydd, cyn belled â bod y gweithrediad yn galluogi cwblhau'r gwaith yn y Sefydliad Ymchwil y mae wedi'i drosglwyddo iddo. Rhaid cael trywydd archwilio llawn mewn perthynas â'r dyfarniad a'r trosglwyddiad. Lle mae newid yn y gweithgaredd hwnnw mae angen i Sefydliadau Ymchwil ddarparu'r ffurflen gais wreiddiol ar gyfer y cyllid ymchwil; y llythyr dyfarnu gwreiddiol (sy'n cadarnhau pwrpas / gwerth / rhaniad) a chadarnhad ysgrifenedig gan yr ariannwr ei fod yn fodlon ar y newid i bwrpas y cyllid. Rhaid darparu tystiolaeth o'r trosglwyddiad oddi wrth y derbynnydd gwreiddiol i'r gweithrediad / Sefydliad Ymchwil newydd hefyd.

Os dyfernir cyllid ymchwil trwy gystadleuaeth fewnol mewn Sefydliad Ymchwil, mae angen i'r Sefydliad Ymchwil sicrhau ei fod yn bodloni telerau ac amodau dyfarniadau allanol (er enghraifft y gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer prosiect a ariennir yn strwythurol). Ymhob achos pan sicrhawyd cyllid trwy gystadleuaeth fewnol rhaid darparu ffurflen gais fewnol prifysgol a llythyr dyfarnu mewnol prifysgol a dangos y cyllid ymchwil hwn a sicrhawyd ar y ffurflen hawlio.

## Buddsoddiad preifat sy’n gyfatebol i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesi neu Ymchwil a Datblygu

Cyfanswm gwerth cyfraniadau’r sector preifat at wasanaethau cymorth a/neu gynghori arloesi a gynorthwyir gan ERDF a/neu brosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a/neu Weithrediadau.

Y buddsoddiad yw’r swm cronnus hyd at ddiwedd y gweithgareddau a gynorthwyir.

Y Sector Preifat: Mae’n cynnwys busnesau, elusennau cofrestredig, sefydliadau dielw, unigolion preifat a sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch, a mentrau cymdeithasol (pan na ellir olrhain y cyllid i ffynhonnell gyhoeddus).

Gall Buddsoddiad Preifat fod ar ffurf ariannol neu ffurf arall, gall fod ar ffurf grant neu heb fod ar ffurf grant.

Cymorth cyhoeddus yw’r cymorth ERDF a roddir i’r prosiect, a gall fod yn gymorth ar ffurf grant neu heb fod ar ffurf grant (benthyciadau, cymhorthdal llog, gwarant credyd, cyfalaf menter neu offeryn ariannol o fath arall).

Gall cyfraniadau o fath arall gynnwys cyfraniadau gan gydweithredwyr yn y sector preifat (er enghraifft amser staff, defnyddio cyfarpar ac adnoddau eraill, deunyddiau, darparu data ac ati), cyn belled â bod y rhain wedi’u nodi’n benodol yn y contract ac y gellir eu hasesu a’u dilysu’n annibynnol.

Gall Buddsoddiad Preifat sy’n cyfateb i gymorth cyhoeddus gynnwys arian cyfatebol ar gyfer Gweithrediad.

Gellir cyfrif hwn o’r adeg y caiff y Buddsoddiad Preifat ei ymrwymo i’r prosiect ymchwil.

**Uned:**

**£** GBP

**Gofynion Data:**

*Arian Cyfatebol I/N*

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Dylid nodi manylion am y math o fuddsoddiad a swm y buddsoddiad, a sut y mae’n ymwneud â’r gweithgareddau ERDF.

Dylid rhoi gwerth ariannol i gyfraniadau o fath arall a rhaid i Weithrediadau allu dangos sut y cafodd y gwerth ei bennu e.e. trwy gostau cyflogau. Os na ddefnyddir y cyllid hwn fel arian cyfatebol ar gyfer y Gweithrediad, yna gall cyfarwyddwr neu

uwch-reolwr yn y sefydliad sy’n darparu’r buddsoddiad ddatgan swm y buddsoddiad. Dylai pwy bynnag sy’n arwyddo fod yn gyfarwydd â’r gweithgaredd a gynorthwyir gan ERDF a gallu mynegi barn wybodus yn ei gylch.

## Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad

Mae'r dangosydd hwn yn mesur y cymorth a roddir i fentrau ar gyfer datblygu cynhyrchion 'newydd i'r farchnad' ar gyfer *unrhyw rai* o'u marchnadoedd.

Mae hyn yn cynnwys arloesi proses, cyn belled â bod y broses yn cyfrannu at ddatblygiad y cynnyrch 'newydd i'r farchnad'. Ni chaiff prosiectau nad ydynt yn anelu at ddatblygu cynnyrch (newydd i'r farchnad) eu hystyried.

Os bydd menter yn cyflwyno nifer o gynhyrchion neu'n cael cymorth ar gyfer nifer o brosiectau, caiff ei chyfrif o hyd fel un fenter. O safbwynt prosiectau cydweithredu, mae'r dangosydd yn mesur yr holl fentrau sy'n cymryd rhan. Mae prosiectau a gynorthwywyd a oedd â'r nod o gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad, ond na fuont yn llwyddiannus, yn dal i gael eu cyfrif.

Mae cynnyrch yn 'newydd i'r farchnad' os nad oes unrhyw gynnyrch arall ar gael mewn *rhyw* farchnad[7] sy'n cynnig yr un ymarferoldeb, neu os yw'r dechnoleg y mae'r cynnyrch newydd yn ei defnyddio'n sylfaenol wahanol i dechnoleg cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli. Gall cynhyrchion fod yn ddiriaethol neu'n anniriaethol (yn cynnwys gwasanaethau a phrosesau).

Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni fel ei gilydd, dylai'r fenter gael ei chyfrif yn erbyn y dangosydd 'newydd i'r cwmni' a'r dangosydd 'newydd i'r farchnad'. **Ar gyfer mentrau a gynhwysir yn y dangosydd hwn, dylid cofnodi hefyd eu bod yn cael grantiau/cymorth nad yw'n ariannol.**

Er bod y rhan fwyaf o newyddbethau'n arwain at gynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, gall y cynnyrch fod yn newydd i'r farchnad ond heb fod yn newydd i'r cwmni, e.e. addasu cynnyrch a geir eisoes ar gyfer marchnad newydd heb newid ei ymarferoldeb.

**Uned:**

Mentrau

**Gofynion Data:**

Dylid cyflwyno data ynghylch yr holl fentrau a gynorthwyir pan gânt eu cynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr lawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

[7] Nid yw 'newydd i'r farchnad' yn golygu bod yn rhaid i'r cynnyrch neu'r broses fod yn newydd i bob marchnad

Tystiolaeth ddogfennol fanwl o'r gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a wnaed o ganlyniad i'r cymorth a sut y mae hyn yn gysylltiedig â datblygu'r cynnyrch. Dylai'r dystiolaeth hon fod ar gael pan gynhwysir y gweithgareddau yn yr hawliad.

Ffurflen hunanddatgan. Mae datganiad, wedi'i arwyddo gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr o fewn y Gweithrediad lle y nodir eu rôl a'r ffaith fod y cynnyrch yn newydd i'r farchnad, yn dderbyniol, ond dylid hefyd nodi manylion y camau a gymerwyd i wirio hyn.

Os nad yw cynnyrch wedi symud yn ei flaen i'r farchnad, dylai'r fenter gynnwys gwybodaeth am statws y cynnyrch.

## Nifer y mentrau a gynorthwyir a fydd yn cyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni

Mae'r dangosydd yn mesur y cymorth a roddwyd i fentrau ar gyfer datblygu cynnyrch '*newydd i'r cwmni*'. Mae hyn yn cynnwys arloesi proses, cyn belled â bod y broses yn cyfrannu at ddatblygu'r cynnyrch. Ni chaiff prosiectau nad ydynt yn anelu mewn gwirionedd at ddatblygu cynnyrch (newydd i'r cwmni) eu hystyried.

Os bydd menter yn cyflwyno nifer o gynhyrchion neu'n cael cymorth ar gyfer nifer o brosiectau, mae'n dal i gael ei hystyried fel un fenter. Ar gyfer prosiectau cydweithredol, mae'r dangosydd yn mesur pob menter sy'n cymryd rhan. Mae prosiectau a gynorthwyir sy'n anelu at gyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni, ond na fuont yn llwyddiannus, yn dal i gael eu cyfrif.

Mae *cynnyrch* yn newydd i'r cwmni os nad yw'r cwmni wedi cynhyrchu cynnyrch gyda'r un ymarferoldeb neu os yw'r dechnoleg gynhyrchu'n sylfaenol wahanol i dechnoleg y cynhyrchion sydd eisoes wedi'u cynhyrchu. Enghraifft o 'newydd i'r cwmni' yw prynu/trwyddedu IP, a ddefnyddir wedyn i wella cynhyrchion neu brosesau'r fenter.

Gall cynhyrchion fod yn ddiriaethol neu'n anniriaethol (yn cynnwys gwasanaethau a phrosesau).

Os yw cynnyrch yn newydd i'r farchnad ac i'r cwmni fel ei gilydd, dylai'r fenter gael ei chyfrif yn erbyn y dangosydd 'newydd i'r cwmni' a'r dangosydd 'newydd i'r farchnad'.

Ar gyfer mentrau a gynhwysir yn y dangosydd hwn, dylid cofnodi hefyd eu bod yn cael grantiau/cymorth ariannol/cymorth nad yw'n ariannol.

Er bod y rhan fwyaf o newyddbethau'n arwain at gynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad ac i'r cwmni, gall y cynnyrch fod yn newydd i'r cwmni ond heb fod yn newydd i'r farchnad, e.e. trosglwyddo technoleg.

**Uned:**

Mentrau

Dylid cyflwyno data ynghylch yr holl fentrau a gynorthwyir pan gânt eu cynnwys mewn hawliad. Ceir rhestr lawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Tystiolaeth ddogfennol fanwl o'r gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a wnaed o ganlyniad i'r cymorth a sut y mae hyn yn gysylltiedig â datblygu'r cynnyrch. Dylai'r dystiolaeth hon fod ar gael pan gynhwysir y gweithgareddau yn yr hawliad.

Ffurflen hunanddatgan. Mae datganiad, wedi'i arwyddo gan gyfarwyddwr neu uwch-reolwr o fewn y Gweithrediad lle y nodir eu rôl a'r ffaith fod y cynnyrch yn newydd i'r cwmni, yn dderbyniol, ond dylid hefyd nodi manylion y camau a gymerwyd i wirio hyn.

## Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir

Nifer y swyddi gros mewn mentrau a gynorthwyir ar ffurf Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE).

Rhaid cael contract cyflogaeth. Mae FTE yn seiliedig ar oriau dan gontract ac wythnos 30 awr. Ni chaiff contractau 'dim oriau' eu hystyried.

Yn y bôn, dangosydd 'cyn ac ar ôl' yw hwn sy'n dangos pa gynnydd mewn cyflogaeth sydd wedi deillio'n uniongyrchol o gwblhau prosiect (ni chaiff gweithwyr a gyflogwyd i roi'r prosiect ar waith eu cyfrif).

Rhaid i'r swyddi fod wedi'u llenwi (ni fydd swyddi gwag yn cyfrif) a rhaid iddynt *gynyddu cyfanswm y swyddi yn y fenter*. Os na fydd cyfanswm cyflogaeth y fenter yn cynyddu, y gwerth fydd sero – ystyrir hyn fel ailalinio yn hytrach nag fel cynnydd. Ni chaiff swyddi a ddiogelir ac ati eu cynnwys.

*Dylai data ynghylch swyddi a grëwyd pan na welwyd 'cynnydd yng nghyfanswm y swyddi yn y fenter' gael ei gofnodi a'i ddefnyddio at ddibenion gwerthuso.*

Gros: Ni chaiff tarddiad deiliad y swydd ei gyfrif, cyn belled â'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cynnydd yng nghyfanswm y swyddi yn y sefydliad. Dylid hawlio'r dangosydd os oes modd priodoli'r cynnydd mewn cyflogaeth yn rhesymol i'r cymorth.

Parhad: Disgwylir i swyddi bara am gyfnod gweddol hir, yn dibynnu ar y nodweddion diwydiannol-technolegol; dylai swyddi tymhorol ymddangos dro ar ôl tro.

Caiff ffigurau'n ymwneud â mentrau a aeth i'r wal eu cofrestru fel 'dim cynnydd mewn cyflogaeth'.

Amseru: Cesglir data cyn i'r prosiect gychwyn ac am gyfnod o hyd at 12 mis ar ôl yr ymyriad.

**Uned:**

FTE (oriau dan gontract yn seiliedig ar wythnos 30 awr)

**Gofynion Data:**

Rhaid cofnodi rhywedd deiliad cyntaf y swydd.

Bandiau Cyflog (0-£14,999; £15,000 – £19,999; £20,000 - £24,999; £25,000 - £34,999; £35,000 ac uwch.

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Gellir dangos cynnydd mewn cyflogaeth trwy ddefnyddio ffurflenni hunanddatgan.

**Dylid cytuno ar fformat y ffurflen hunanddatgan gyda WEFO a dylid ei hatodi wrth y Cynllun Monitro a Gwerthuso.** Ond dylid cynnwys manylion y swyddi sydd wedi'u creu a'r ffaith fod y cynnydd wedi deillio o'r ymyriad ERDF. Dylid cynnwys band cyflog a rhywedd deiliad cyntaf y swydd. Dylai cyfarwyddwr neu uwch-reolwr o fewn y Gweithrediad arwyddo'r datganiad, a dylent nodi beth yw eu rôl.

## Nifer y patentau a gofrestrwyd ar gyfer cynhyrchion

Nifer y patentau ar gyfer cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau a gyflwynwyd yn ffurfiol i Swyddfa Batentau'r DU neu swyddfa gyfwerth dramor, gan **fentrau a gaiff gymorth neu a gynorthwyir yn ariannol.**

**Uned:**

Patentau

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Tystiolaeth o gyhoeddi cais am batent/cadarnhad o rif cofrestru e.e. rhif GB

Datganiad gan y fenter yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng cyflwyno cais am batent a chymorth ERDF

## Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd

Prosiect a gynlluniwyd fel treial, gyda'r bwriad o brofi dull penodol ar gyfer grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfyngedig o amser; gyda'r bwriad o ddenu gweithgaredd yn y maes/disgyblaeth neu'r sector yn y dyfodol.[8]

**Uned:**

Prosiectau peilot a gwblhawyd

**Tystiolaeth a Awgrymir:**

Dylid hawlio'r dangosydd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gall y dystiolaeth i ategu'r gweithgaredd hwn fod yn un o blith y rhestr ganlynol, ond dylid cytuno ar hyn gyda WEFO wrth lunio'r cynllun busnes:

Tystiolaeth llinell sylfaen – profi'r cysyniad

Cytundeb cydweithredu

Tystiolaeth o broses gafael, manyleb dechnegol ar gyfer capasiti'r weithfa

Tystiolaeth bod y weithfa wedi'i chwblhau a'i bod yn weithredol

Gwerthusiad o'r prosiect peilot

[8] ERDF 2007-13 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Diffiniadau o Gynnyrch


## Atodiad A: Gofynion Data Mentrau

Gellir gweld fersiynau cyfredol o’r gronfa ddata Mentrau micro-lefel trwy ddefnyddio’r dolenni canlynol:

SAESNEG: https://gov.wales/european-regional-development-fund-erdf-business-database-template

CYMRAEG: https://gov.wales/european-regional-development-fund-erdf-business-database-template



**Mwy o wybodaeth:**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

**Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010 3355**